Royal College of Anaesthetists

Digwyddiadau a risgiau cyffredin mewn anesthesia

Mae'r cerdyn crynhoi hwn yn dangos y digwyddiadau a'r risgiau cyffredin y mae cleifion sy'n oedolion iach o bwysau normal yn eu hwynebu wrth dderbyn anesthetig cyffredinol ar gyfer llawdriniaeth arferol (gall llawdriniaethau arbenigol beri risgiau gwahanol).

Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn. Gall y cyffuriau anesthetig neu'r offer a ddefnyddir achosi rhai sgil-effeithiau cyffredin; nid ydynt fel arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Bydd y risgiau'n amrywio rhwng unigolion ac yn dibynnu ar y driniaeth a'r dechneg anesthetig a ddefnyddir. Bydd eich anesthetydd yn trafod y risgiau y mae'n ystyried sy'n fwy perthnasol i chi. Dylech hefyd drafod ag o neu â hi unrhyw beth sy'n bwysig i chi.

Mae yna risgiau eraill sy'n llai cyffredin ac na fydd eich anesthetydd fel arfer yn eu trafod fel mater o drefn, oni bai ei fod yn credu bod y risg i chi yn uwch. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys ar y cerdyn hwn.

CYFFREDIN IAWN – mwy nag 1 o bob 10
Sy'n cyfateb i un person yn eich teulu

- Cyfog
- Crynu
- Syched*
- Dolur gwddf / Gwddf tost
- Cleisio
- Colli cof dros dro (yn bennaf mewn pobl dros 60 oed)

CYFFREDIN – rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 100
Sy'n cyfateb i un person mewn stryd

- Poen o amgylch safle'r pigiad*
- Mân anaf i'r wefus neu'r tafod

ANGHYFFREDIN – rhwng 1 o bob 100 ac 1 o bob 1,000
Sy'n cyfateb i un person mewn pentref

- Mân anaf i'r nerf

PRIN – rhwng 1 o bob 1,000 ac 1 o bob 10,000
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fach

1 o bob 1,000
Niwed ymylol parhaol i'r nerf

1 o bob 2,800
Ysgythriad cornbilennol (crafiad ar y llygad)

1 o bob 4,500
Niwed i ddannedd sy'n peri bod angen triniaeth

1 o bob 10,000
Anaffylacsis (adwaith alergaidd difrifol i gyffur)

PRIN IAWN – rhwng 1 o bob 10,000 ac 1 o bob 100,000 new fwy
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fawr

Mae'r risgiau rydyn ni i gyd yn eu cymryd mewn bywyd normal, **fel teithio ar y ffordd**, mewn gwirionedd yn llawer uwch na'r risgiau isod.

1 o bob 20,000
Dod yn ymwybodol yn ystod anesthetig

1 o bob 100,000
Colli golwg

1 o bob 100,000
Marwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i anesthesia

*Astudiaeth gyntaf Prosiect Cenedlaethol Anesthesia Sprint (SNAP-1). *Br J Anaesth* 2016 (https://academic.oup.com/bja/article/117/6/758/2671124).